TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

CBAC Mathemateg Bellach UG Lefel 3

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cipolwg difyr ac addysgiadol ar Fathemateg.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn dilyniant mathemategol

... Ydych eisiau dilyn gyrfa mewn Addysgu, Cyfrifeg neu Ystadegau

... Ydych yn gweithio'n galed ac yn rhagweithiol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae Mathemateg Bellach yn ehangu a dyfnhau'r meysydd pwnc a astudir ym Mathemateg Lefel UG/U. Mae'n gymhwyster Lefel UG/U ar wahân, ac mae modd ymgymryd ag o ochr yn ochr â'r opsiwn Mathemateg arferol yn unig. Cewch eich cyflwyno i bynciau newydd, megis Matricsau a Rhifau Cymhleth, sy'n hanfodol mewn nifer o gyrsiau gradd ag elfen gref o

fathemateg. Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu i dair elfen: Mathemateg Bur, Ystadegau a Mecaneg.

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Mathemateg Bellach Lefel U CBAC
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd A*-C, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg a gradd A* neu A mewn Mathemateg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun gan fodloni terfynau amser gwaith cartref yn gyson a chymryd rhan mewn asesiadau ffurfiol cyson.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Prifysgol, yn cynnwys graddau sydd ag elfen gref o Fathemateg, megis Mathemateg, Peirianneg, Gwyddorau, Cyfrifiadura a Chyllid ac Economeg. Byddwch yn cael budd enfawr o ymgymryd â Mathemateg Bellach i o leiaf Lefel UG. Mae'n bwnc a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnig cwricwlwm amrywiol a chyfoethog i'w ddysgwyr Lefel A ac UG ac mae'n awyddus i sicrhau bod dysgwyr ledled Gwent yn gallu cael mynediad at bynciau sydd yn hanesyddol yn recriwtio niferoedd bach. Er mwyn sicrhau argaeledd, cynigir Sbaeneg a Ffrangeg ar ein Campws Crosskeys a chynigir y Gymraeg ar ein campysau Parth Dysgu Crosskeys a Blaenau Gwent. Mathemateg Bellach yn cael eu cynnig ar bob un o'n campysau. Os bydd eich dewis o bynciau yn golygu bod angen teithio rhwng campysau, cysylltwch â'n hadran dderbyniadau am ragor o wybodaeth.